



MANTELL

NEWYDDLEN MUDIADAU GWIRFODDOL GWYNEDD

Rhifyn 46
Gorffennaf 2009



Wythnos Gwirfoddolwyr

CYNNWYS

Newyddion	2,3
Canolfan Gwirfoddoli Gwynedd	4
Grantiau	5
Plant a Phobl Ifanc	6
Y Porth Ymgysylltu lechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles	7
Digwyddiadau a Hyffordiant	8

Mae'r wythnos gyntaf ym mis Mehefin wedi hen ennill ei phlwyf yng nghalendr gwirfoddoli erbyn hyn, gan ei bod yn cael ei hadnabod yn genedlaethol fel "Wythnos Gwirfoddolwyr". Nod yr wythnos yn flynyddol yw Cydnabod, Recriwtio a Gwobrwyo gwirfoddolwyr. Eleni, roedd yr Wythnos yn cyrraedd carreg filltir arbennig gan ei bod yn chwarter canrif oed!! Uchafbwynt yr wythnos yng Ngwynedd oedd y dathliad a drefnwyd gan Ganolfan Gwirfoddoli Gwynedd yn Llanberis, dydd Iau, 4ydd o Fehefin. Ar ddiwrnod braf, aeth bron i gant o wirfoddolwyr a chynrychiolwyr o fudiadau ar y trê'n i orsaf Clogwyn (3/4 ffordd i fynyr Wyddfa). Roedd awyrgylch hyfryd ar y daith, a'r golygfeydd yn fendigedig. Roedd cyfle i dynnu lluniau, cael picnic a sgwrs gyda hwn a llall yn ystod yr hanner awr yng



Iaf - 7fed o Fehefin 2009

Nghlogwyn cyn dychwelyd i'r orsaf yn Llanberis. Yn dilyn, cynhaliwyd 'Te Dathlu a Diolch' yn y Mynydd Gwefru yn Llanberis. Roedd y digwyddiad yn gyfle i gydnabod cyfraniad gwerthfawr gwirfoddolwyr yng Ngwynedd. Y gŵr gwadd am y prynhawn oedd Mr Aneurin Phillips, Pennaeth Parc Cenedlaethol Eryri. Cyflwynodd Mr Phillips dystysgrifau i nifer o wirfoddolwyr ymroddgar o Wynedd oedd wedi eu henwebu ar gyfer y gystadleuaeth 'Gwirfoddolwr y Flwyddyn Cymru 2009'.

Enillwyr Tystysgrifau 'Gwobr Gwirfoddolwr y Flwyddyn Cymru 2009' o Wynedd.



Enillydd Cenedlaethol, Mrs Bettina Harden.

Ym mis Rhagfyr pob blwyddyn, gosodir yr her i bobl ar draws Cymru i enwebu rhai sydd wedi eu hysbrydoli gyda'r hyn mae rhywun arall yn ei wneud yn wirfoddol. Eleni, derbyniwyd 215

o enwebiadau drwy Gymru, a naw ohonynt o Wynedd. Yr ydym yn falch iawn fod un o'r naw yn enillydd cenedlaethol sef Mrs Bettina Harden o Nanhoron, sydd yn Gadeirydd Ymddiriedolaeth Gerddi'r Agoriad, ac yn dod i'r brig yn Genedlaethol yng nghategori ymddiriedolwyr. Bettina yw sefydlydd, ysbrydoliaeth a'r egni tu ôl i Ymddiriedolaeth Gerddi'r Agoriad. Yn ôl yn 1999, ei gweledigaeth oedd cael rhannu harddwch â'r pleser sydd i'w gael yng ngerddi hanesyddol Cymru gyda phobl o dan anfantais neu rhai sydd gydag anabledd. Yn y flwyddyn 2000 llwyddodd i alluogi 2000 o bobl i ymweld â'r gerddi. Trwy ei gwaith diflino, mae ardal yr

Ymddiriedolaeth wedi ehangu dros Gymru gyfan ac i rannau o Loegr. Yn rheolaidd, mae Bettina yn gwirfoddoli am 7 ddiwrnod yr wythnos - yn datblygu syniadau newydd, yn ymchwilio i hanes gerddi, agor ei gardd ei hun i grwpiau Gateway, cefnogi a helpu gwirfoddolwyr eraill yn ogystal â mynychu cyfarfodydd. Teyrnged i'w gwaith diflino yw'r nifer o ymwelwyr fu mewn gerddi y llynedd - dros 6000 o bobl. Mae ei brwdfrydedd a'i hymroddiad yn ei gwneud yn enillydd teilwng iawn o Wobr Gwirfoddolwr y Flwyddyn 2009.

Am restr lawn o'r rhai gafodd eu henwebu gweler tudalen 4.

Mwy o wybodaeth ynghyd â'r newyddion diweddaraf i'w gael ar ein gwefan!

Nodyn gan y Prif Swyddog

Bum i ben yr Wyddfa nid unwaith ond ddwywaith o fewn wythnos yn ddiweddar, wel bron iawn i'r copa...

Ddydd Gwener ddiwethaf cefais y fraint o fod yn rhan o ddatliadau agor Hafod Eryri - y ganolfan ymwelwyr gwerth £8.5miliwn ar gopa'r Wyddfa y bu cymaint o sôn amdani. 'Roedd yn ddigwyddiad hanesyddol arbennig ac 'roedd cael bod yn rhan o'r dathliadau yn wirioneddol wefreiddiol. Anhygoel fel y ciliodd y cymylau a daeth yr haul allan fel yr oedd Rhodri Morgan yn agor y ganolfan yn swyddogol a dadorchuddio y garreg i gofnodi'r digwyddiad.

Mae Hafod Eryri yn adeilad gwirioneddol unigryw, gwrth bensaernïol ar gopa uchaf Cymru. Clywais yr holl ddadleuon o blaid ac yn erbyn y datblygiad, ac fel cerddwraig frwd fy hun, 'roedd gennyf ddiddordeb ymhob agwedd o'r dadlau a fu. Bu i'r anrhydeddus Chris Bonnington hyd yn oed gyfrannu at y dadleuon am Hafod Eryri.

Ddydd Gwener ddiwethaf wrth sefyll yn Hafod Eryri ac edrych dros wychder Eryri rhaid i mi ddweud nad oes gennyf ronyn o amheuaeth fod hwn y datblygiad iawn i gopa'r Wyddfa. Llongyfarchiadau i'r Parc Cenedlaethol am yrru'r weledigaeth hyd at ei gwireddu.

Efallai eich bod yn meddwl beth a wnelo Hafod Eryri â'r Trydydd Sector?

Mae'r datblygiad yma yn dangos sut y gellir cyfuno arian Ewrop, arian cyhoeddus y Cynulliad a buddsoddiad o'r Sector Breifat i greu rhywbeth cynaliadwy a gwerth chweil. Mae yma wers bwysig i ni. Mae'n hollol bosib cydweithio ar draws sectorau ac ar draws ffiniau i greu rhywbeth anferth fel Hafod Eryri.

Yn ogystal wrth gwrs mae miloedd o wirfoddolwyr wedi bod ynghlwm wrth y datblygiad yma, rhai yn codi arian yn wirfoddol i gyfrannu at y cynllun, eraill fel y Tîm Achub Mynydd (i gyd yn wirfoddolwyr) fydd yn cael defnydd mawr o Hafod Eryri, heb son am yr holl wirfoddolwyr sydd ynghlwm wrth y mudiadau amgylcheddol sydd yn gwarchod Eryri.

Llai nag wythnos yn gynt 'roeddwn eto wedi bod i fyny'r llethrau i ddathlu Gwirfoddoli yng Ngwynedd. Dyma'r Wythnos Gwirfoddoli Genedlaethol - yn dathlu 25 mlynedd eleni - a ninnau yn Fantell Gwynedd wedi cynllunio i ddathlu mewn steil go iawn a mynd a chriw o fron i 100 o wirfoddolwyr i gopa'r Wyddfa.

Cawsom y siom fwyaf pan ddaeth neges gan gwmni'r rheilffordd yn datgan na allwn fynd yr holl ffordd at y copa oherwydd trafferthion technegol,



a doedd rhagolygon y tywydd ddim yn dda chwaith. Ta-waeth am hynny, aethpwyd rhagddi gyda'r trefniadau, a mynd a'r gwirfoddolwyr cyn belled â stesion Clogwyn, cyfle i gael tamaid o ginio a llymaid yno cyn troi yn ôl am Llanbêr a chael te dathlu gwerth chweil yng Nghanolfan y Mynydd Gwefru. Cawsom gwmni ein gŵr gwadd Aneurin Phillips, Prif Weithredwr y Parc Cenedlaethol. Diolch iddo ef a diolch yn arbennig i bawb fu ynghlwm wrth drefnu'r digwyddiad gwych yma. Diolch i'r holl wirfoddolwyr fynychodd y digwyddiad, llongyfarchiadau i'r rhai enillodd wobrwon ac edrychwn ymlaen yn eiddgar rŵan at Wythnos Gwirfoddoli 2010.

Scar Fell, Ben Nevis ynteu Everest fydd hi yn 2010 deudwch? Gawn ni weld!

Bethan

OFFER CYFIEITHU

ar gael i'w llogi

Ffoniwch 01286 672626

neu 01341 422575



ebost: ymholiadau@mantellgwynedd.com

neu beryl@mantellgwynedd.com

www.mantellgwynedd.com

Rhif Elusen 1068851 Rhif Cwmni 3420271

Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector

Mae'r Cod yma yn amlinellu'r egwyddorion allweddol a fydd yn sail i'r ffordd y bydd y Cynulliad yn ariannu'r Trydydd Sector a'r hyn y bydd y Cynulliad yn ei ddisgwyl yn sgîl hynny.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwmo i weithredu fframwaith ariannu effeithiol a chynaliadwy i'r Trydydd Sector.

Am gopi llawn o'r ddogfen hon ewch ar wefan y cynulliad.

I lawrlwytho copi o newyddion a gwybodaeth ddiweddaraf i Gymru gan:
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) ewch i'r adran **Newyddion** ar wefan
 Mantell Gwynedd - www.mantellgwynedd.com

EWCH I'R EISTEDDFOD!



Gweithdy roc yn Harlech.



Mi fydd yna daith go arbennig yn digwydd ar Awst 2ail, o Blaenau Ffestiniog i'r Eisteddfod Genedlaethol yn y Bala. Mae'r daith yn cael ei threfnu gan Ceri Cunnington, Cymunedau'n Gyntaf Blaenau. Mae Ceri yn awyddus iawn i sicrhau ein bod yn cael mwy o weithgareddau awyr agored yn digwydd trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn rhoi sylw i'r traddodiadau, hanes a llen gwerin wrth ymwneud â'r gweithgareddau. Bydd y daith yn dilyn llwybr y trê'n o Blaenau i Gwm Prysor, gwersylla yno dros nos ac yn y bore, beicio a chanwïo gweddill y daith wedyn i Bala.

Mae'r dreiatlon yn rhan o'r gweithgareddau i godi ymwybyddiaeth am yr Eisteddfod y bu Mantell Gwynedd yn ymwneud â hwy yn ystod y 3 mis diwethaf. Trefnwyd hefyd fod presenoldeb da o blith mudiadau Cymraeg yn ymweld â diwrnod iechyd Cymunedau'n Gyntaf yn y Bermo. Trefnwyd nifer o sgysia, yn cael eu cyflwyno trwy gyfrwng y Saesneg i gynulleidfaoedd newydd gan ddau brifardd Twm Morys (Bardd Plant Cymru) ac Iwan Llwyd.

Mae gweithdai roc/pop yn cael eu cynnal yn Harlech a Thywyn ac rydym ni'n edrych

ymlaen at weld ffrwyth y gweithdai fel perfformiadau yn yr Eisteddfod. Mae criw y Gell ym Mlaenau Ffestiniog am gynhyrchu erthyglau i'w cynnwys yn eu cylchgrawn newydd ClincR fydd yn sôn am weithgareddau difyr i'r ieuainc yn yr Eisteddfod.

Cefnogwyd y gwaith gan grant Bwrdd yr Iaith Gymraeg a weinyddir trwy Grŵp Hyrwyddo Iaith Gwynedd. Rydym yn ddiolchgar iawn am gyfraniad pawb sydd wedi'n helpu i gael y gweithgareddau i ddigwydd, ac yn arbennig i Siân Northey fu'n gweithio'n galed ar y cynlluniau.

Eisteddfod Genedlaethol Meirion 2009

Fe fydd gan Mantell Gwynedd stondin ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol yn Y Bala. Yn ymuno â ni mae 18 o fudiadau/grwpiau gwirfoddol. Cofiwch alw draw i'n gweld – mae nifer o ddigwyddiadau wedi eu cynllunio ar gyfer yr wythnos!

STAFF MANTELL GWYNEDD

CAERNARFON: Prif Swyddog: Bethan Russell Owen. **Tîm Gwasanaethau: Uwch Swyddog Gwasanaethau Cefnogol:** Meir Jones, **Hwylusydd Iechyd a Gofal Cym.:** Sioned Llwyd Larsen, **Swyddog Grantiau a Chefnogaeth:** Delyth Vaughan, **Hwylusydd Plant a Phobl Ifanc:** Ann Vaughan Jones, **Tîm Cyllid a Gweinyddol: Dirprwy Brif Swyddog a Phennaeth Tîm Cyllid a Gweinyddu:** Ceren Williams, **Swyddog Gweinyddol:** Bronwen Rowlands, **Cynorthwy-ydd Gweinyddol:** Tracy Lynne Rotheram, **Tîm Canolfan Wirfoddoli, Cydlynnydd Gwirfoddolwyr:** Rhianon Jones, **Swyddog Gwirfoddoli:** Iola Till, **Swyddog Gwirfoddoli Ieuenctid:** Mirain Roberts, **Swyddog Porth Ymgysylltu:** Carys Williams, **DOLGELLAU: Tîm Cyllid a Gweinyddol, Cynorthwy-ydd Gweinyddol:** Beryl Norgrove, **Tîm Biwro Gwirfoddolwyr, Swyddog Gwirfoddoli:** Ann Angharad Fleming,

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn gwybodaeth i rifyn nesaf o Mantell yw **16eg Tachwedd 2009**. Danfonwch neu e-bostiwch unrhyw wybodaeth at Beryl Norgrove yn swyddfa Dolgellau: beryl@mantellgwynedd.com • Ffôn: 01341 422575

Cyfle arall i roi clod i wirfoddolwyr

Enillwyr Tystysgrifau 'Gwobr Gwirfoddolwr y Flwyddyn Cymru 2009' o Wynedd

Enw'r Enillydd	Categori	Yn gwirfoddoli gyda	Enwebydd
Bettina Harden	Ymddiriedolwr	Ymddiriedolaeth Gerddi'r Agoriad	Mrs Cath Baker
Elinor Ellis	Ymddiriedolwr	Oriel Plas Glyn y Weddw	Mr Gwyn Jones
Mathew Penri Williams	Pobl Ifanc	Lleisiau'r Llan	Catherine Teresa Evans
Marion Hughes	Oedolyn	Menter Fachwen	Simon Higgins
Jenny Jones	Oedolyn	Relate Gogledd Cymru	Alex Jaundrill
Mrs Glenys Parry	Oedolyn	Gwasanaethau Ambiwylans Gogledd Cymru	Joan Roberts
Mr Ernest Wright	Oedolyn	SSAFA (Soldiers, Sailors, Airmen and Families Association)	Col John Egan
Mark Lawrence	Gwyrdd	BTCV Cymru	Jenny Crouch, Mr Kevin Chambers
Grŵp Gwella	Grŵp		
Tref Wyliau'r Bermo			

Gwobr y Frenhines am Wasanaeth Gwirfoddol

A wyddoch chi am grŵp o wirfoddolwyr sy'n rhoi o'u hamser i helpu eraill ac sy'n gwneud gwahaniaeth yn eich cymuned chi?

Ers Jiwibili Aur Ei Mawrhydi, mae'r Frenhines wedi cyflwyno'r wobwr genedlaethol fawreddog hon i gannoedd o grwpiau gwirfoddoli yn y DU. Mae Gwobr y Frenhines am Wasanaeth Gwirfoddol gyfwerth â'r MBE ac mae'n

cydnabod y cyfraniad neilltuol y mae gwirfoddolwyr yn ei wneud yn eu cymunedau lleol. Mae enwebu'n hawdd! Ewch i: www.queensawardvoluntary.gov.uk E-bostiwch queensaward@consol.co.uk Ffoniwch 020 7781 2397 Dyddiad cau :- 10fed Hydref 2009

Rhwydwaith Trefnwyr Gwirfoddolwyr Gwynedd.

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Rhwydwaith yn Nhremadog dydd Mawrth, 19eg o Fai. Daeth nifer dda o gynrychiolwyr i

wrando ar Emma Leighton Jones o Uned Cofnodion Troseddol CGGC yn rhoi cyflwyniad ar waith yr Uned yn ogystal â'r newidiadau sydd yn mynd i ddigwydd yn y drefn o ddiogelu plant ac oedolion bregus cyn diwedd y flwyddyn. Roedd yn gyfarfod buddiol iawn, ac os am ragor o wybodaeth am y corff Awdurdod Diogelu Annibynnol, ewch i:

- www.isa.gov.org
- www.wcva-cru.org.uk
- www.crb.gov.uk
- neu ffoniwch 0800 197 391

Wythnos Gwirfoddolwyr 2009 ...trwy lygad y camera



Yn barod am de! Y Mynydd Gwefru.



Gorsaf Clogwyn



Cynrychiolwyr o WRVS wedi ymuno â'r stondin wybodaeth ar y stryd ym Mangor



Lynne Edwards yn torri'r Gacen Benblwydd



Y stondin Wybodaeth ar y Maes ym Mhwillheli

Sgiliau Bywyd – Cronfa Loteri Fawr



Mae gan y Prosiect Sgiliau Bywyd tua £14 miliwn ar gael i gyflenwi gwasanaethau ar draws Cymru a fydd yn cefnogi grwpiau targed e.e.

pobl sy'n economaidd anweithgar i ymwneud neu ail-ymwneud ag addysg, dysgu, gwirfoddoli a chyflogaeth.

Y grwpiau a dargedir yw:

- Pobl sy'n gadael Gofal
- Gofalwyr a chyn-ofalwyr sy'n mynd yn ôl i weithio
- Teuluoedd Economaidd Anweithgar

Dylech nodi nad rhaglen darparu grant yw'r prosiect Sgiliau Bywyd. Bydd y Prosiect Sgiliau Bywyd yn dilyn proses tendro cystadleuol gaeth.

Am fwy o wybodaeth ynglŷn â'r prosiect ewch i:

www.sell2wales.co.uk/notices/display.html

i weld y Hysbysiad Gwybodaeth Rhag Blaen a'r Pecyn Gwybodaeth i Gynigwyr.

Galluogi Gwynedd

Gall grwpiau gwirfoddol a chymunedol ar draws Gwynedd barhau i ymgeisio am arian cyfalaf ar gyfer datblygu, uwchraddio neu adnewyddu adeiladau/asedau cymunedol hyd at fwyafswm o £10,000.00.

Y dyddiad cau nesaf yw dydd Mawrth, 30ain Medi 2009, ac yna 31ain Rhagfyr 2009. Mae'n rhaid i bob cais gyrraedd trwy law neu yn y post CYN 5.00 pm.

I drafod unrhyw ymholiad neu am fwy o fanylion cysylltwch â Delyth Vaughan ar 01286 672 626 neu e-bosdiwch:

delyth@mantellgwynedd.com

Pentref SOS – Cronfa Loteri Fawr a'r BBC

Cynllun newydd cyffrous gan y Gronfa Loteri Fawr a'r BBC yw Pentref SOS.

Maent yn chwilio am chwe phentref yn y DU sydd â syniad busnes gwych a chwe unigolyn mentrus i ymddwyn fel Hyrwyddwr Pentref i'w helpu i gyflawni eu huchelgeisiau.

Gyda'i gilydd byddant yn creu menter newydd sbon a fydd yn dod a bywyd ac egni newydd i'r pentref gyda rhwng £100,000 a £400,000 gan y Gronfa Loteri Fawr.

Bydd taith y chwe phentref llwyddiannus a'u Hyrwyddwyr Pentref yn cael eu ffilmio ar gyfer cyfres a fydd yn cael ei darlledu ar oriau brig BBC 1 yn ystod gaeaf 2010.

Am wybodaeth bellach am y fenter gyffrous yma ac am wybodaeth ymgeisio ar gyfer pentrefi ymwelwch â:
www.cronfaloterifawr.org.uk
neu am wybodaeth am yr Hyrwyddwyr Pentref ewch i:
www.bbc.co.uk/villagesos
neu ffoniwch 0844 88 88 677

Cyfle Eto 'Ewch Amdani'

Nodyn atogffa fod y gronfa 'Ewch Amdani' yn parhau.

Mae'r gronfa ar gyfer grwpiau gwirfoddol a chymunedol ar draws Gwynedd sydd ddim â chyswllt uniongyrchol â chwaraeon er mwyn annog gweithgarwch corfforol cymunedol ychwanegol o'r newydd i hybu a gwella ffitrwydd a iechyd pobl.

Am fwy o fanylion cysylltwch â Delyth Vaughan ar 01286 672 626 neu
delyth@mantellgwynedd.com

Ymddiriedolaeth Waterloo

Er mai blaenoriaethau ariannu'r Ymddiriedolaeth yw'r Amgylchedd a Datblygiad y Byd, mae sylfaenwyr gwreiddiol yr Ymddiriedolaeth yn byw a gweithio yng Nghymru.

Ar lefel rhyngwladol a lleol mae'r Ymddiriedolaeth yn chwilio am geisiadau sydd â'r potensial i wneud gwahaniaeth.

Mae dwy flaenoriaeth yn benodol ar gyfer eu rhaglen ariannu yng Nghymru sef 'gweithio' a 'gofalu'.

Does dim trothwyon cyllido pendant ar gyfer rhaglenni ariannu Gweithio a Gofal ond yn y gorffennol mae ceisiadau wedi amrywio o £5,000 i £20,000. Am fwy o wybodaeth ewch i:

www.waterloofoundation.org.uk

neu The Waterloo Foundation, 46-48 Ffordd Caerdydd, Llandaf, Caerdydd, CF5 2DT.

CRONFA CELFYDDYDAU CYMUNEDOL GWYNEDD

Oes gennych chi ddi-ddordeb mewn cynnal gweithgaredd celfyddydol yn eich cymuned? Lluniwch gais grant am hyd at £500.00 i Uned Celfyddydau Cymunedol, Cyngor Gwynedd

Dyma'r dyddiadau cau derbyn ceisiadau am y flwyddyn
30.06.09 * 30.09.09*
30.12.09

Am fwy o fanylion a ffurflen gais cysylltwch â:
GWAWR WYN ROBERTS,
Y Celfyddydau, Archifdy Caernarfon,
Y Gyfadran Datblygu, Swyddfa'r Sir,
Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH
(01286) 679721
GwawrR@gwynedd.gov.uk
www.gwynedd.gov.uk/celf

Grant Dan arweiniad Pobl Ifanc



Yn dilyn llwyddiant Grant Dan arweiniad Pobl Ifanc yn '08/09, ar gyfer y flwyddyn yma '09/10 mae £5000 o grant i'w rannu i grwpiau ar gyfer creu rhagor o gyfleoedd gwirfoddoli i bobl ifanc. Gall grwpiau ymgeisio am grant at uchafswm o £500. Roedd dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau ar gyfer y rownd gyntaf ar y 1af o Fai. Derbyniwyd 11 cais am arian o'r gronfa.

Daeth grŵp o wirfoddolwyr ifanc at ei gilydd ar 30ain o Ebrill i gael hyfforddiant ar sut i sgorio ceisiadau i ddyrannu grantiau, a nhw sydd yn penderfynu pa geisiadau fydd yn llwyddiannus.

Ar nos Iau, y 7fed o Fai a nos Fawrth y 12fed, daeth y Panel

Dyrannu Grantiau at ei gilydd eto - i edrych ar y ceisiadau a dderbyniwyd, ac i benderfynu pa rai oedd yn cael eu hariannu.

Yr ymgeiswyr oedd yn llwyddiannus – Clwb Antur Menai, Cwmni Ifanc Ty'r Ysgol, Menter y Felin Uchaf Cyf., Cynllun Cwlwm, Clwb Ffermwyr Ifanc Brynchrug, Baner y Gors, Iwth Pen, Celfyddydau Celynin

Y dyddiad cau i dderbyn ceisiadau ar gyfer yr ail rownd yw dydd Gwener yr 2il o Hydref 2009.

Am becyn cais a rhagor o wybodaeth cysylltwch â Mirain Roberts yn Mantell Gwynedd ar 01286 672626 neu mirainroberts@mantellgwynedd.com

Gliniaduron ac offer digidol ar gael i'w llogi i fudiadau Trydydd Sector Plant a Phobl Ifanc Gwynedd

Cofiwch am y gliniaduron a'r offer digidol symudol sydd ar gael i'w llogi drwy Mantell Gwynedd at ddefnydd gweithgareddau hefo plant a Phobl Ifanc.

I wneud ymholiad ynghylch yr offer, cysylltwch ag Ann Vaughan Jones – Hwylusydd Plant a Phobl Ifanc ar 01286 672626 neu annvaughan@mantellgwynedd.com

Am ragor o wybodaeth, neu gyngor ar unrhyw fater yn ymwneud â gwirfoddoli, cysylltwch â:
Ffôn: 01286 672626 / 01341 422575 neu e-bost:
gwirfoddoli@mantellgwynedd.com

Dweud Ffarwel wrth Fforwm Plant a Theuluoedd Gwynedd a Chroesawu Rhwydwaith Plant a Phobl Ifanc Gwynedd.

Roedd hi'n gyfnod eithaf trist mae'n debyg i nifer o aelodau'r Fforwm Plant a Theuluoedd Gwynedd ddiwedd Mawrth 2009 yn dilyn penderfyniad yr aelodau ar Fawrth yr 2il yn ystod Cyfarfod Cyffredinol Arbennig, i ddod a'r Fforwm i ben fel elusen. Nid ofer oedd hyn i gyd i'r aelodau fodd bynnag gan fod Mantell Gwynedd trwy waith yr Hwylusydd Plant a Phobl Ifanc wedi sicrhau dilyniant i'r gwaith a sefydlu Rhwydwaith Plant a Phobl Ifanc i Wunedd er mwyn cynnal elfennau hanfodol o'r gwaith. Sefydlwyd y Fforwm yn wreiddiol er mwyn rhoi cyngor, cefnogaeth a chyfleoedd rhwydweithio i unigolion, grwpiau a chyrrff oedd yn ymwneud â gofal, datblygiad a lles plant a phobl ifanc. Mudiadau o'r trydydd Sector oedd y rhain yn bennaf ac roedd yr aelodaeth yn rhad ac am ddim. Bydd yr holl drefniadau hyn yn parhau.

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf o Rwydwaith Plant a Phobl Ifanc Gwynedd ar 30 Mehefin 2009 yn y Ganolfan Hamdden ym Mhorthmadog. Roedd y cyfarfod yma yn gyfle i ail lansio gwaith y Fforwm gynt ynghyd â rhoi cyfle i'r aelodau wneud penderfyniadau pwysig ynghylch cyfarfodydd y dyfodol e.e. lleoliad, amser ayb. Yn ogystal â hyn cafwyd cyflwyniad ar y Cynllun Plant terfynol gan Darren Griffiths, Rheolwr Strategol Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Gwynedd. Cafwyd cyflwyniad hefyd gan Bethan Eluned ar y Cynllun Datblygu Gwledig - Llwyddo yng Ngwynedd. Rhoddodd Bethan grynodeb o'r pedwar prosiect fydd yn cael eu gweithredu o dan echel 3 a 4 o'r cynllun sef: Mentro, Arloesi, Galluogi a Cynnig Gwynedd. I ddilyn, cafwyd cyflwyniad a gweithdy gan Carys a Delyth o Mantell Gwynedd ar y Porth Ymgysylltu, sy'n targedu'r economaidd anweithgar. I ddiweddur bore, bu cyfle i rannu gwybodaeth cyn eistedd i lawr am ginio a rhwydweithio pellach!

Y PORTH YMGYSYLLTU

Lansiwyd Cynllun Y Porth Ymgysylltu yn Ebrill 2009 gan y Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Nod y cynllun yw lleihau anweithgarwch economaidd yng Nghymru drwy fuddsoddi mewn mudiadau a all helpu i symud pobl at gyflogaeth. Estynnwyd gwahoddiad i fudiadau i lenwi Holiadur Cyn-gymhwyso er mwyn ymuno â rhestr o

gyflenwyr cymeradwy. O gael eu cynnwys ar y rhestr, bydd y mudiadau rheiny wedyn yn cael gwahoddiad uniongyrchol i dendro am gontractau. Y dyddiad cau cyntaf ar gyfer derbyn yr holiaduron oedd 15fed o Fai. Derbyniwyd 408 o'r holiaduron ar draws ardal Cydgyfeiriant gyda 85 o fudiadau yn datgan eu bod yn bwriadu gweithio yng Ngwynedd.

Disgwylir cael gwybodaeth am y mudiadau sydd ar restr y cyflenwyr cymeradwy ym mis Gorffennaf. Mae'r CGGC yn bwriadu rhedeg cynllun peilot ar gynnig tendrau, mewn un ardal, ym

mis Awst.

Hefyd, derbyniwyd gwybodaeth y bydd y cyfle eto i gyflwyno Holiadur Cyn-Gymhwyso yn Nhachwedd / Rhagfyr 2009. Bydd hyn yn rhoi cyfle i grwpiau gasglu gwybodaeth ar gyfer yr holiadur. Bydd rhagor o wybodaeth yn y rhifyn nesaf o Mantell.

Os hoffech ragor o wybodaeth am Gynllun Y Porth Ymgysylltu, neu os ydych yn dymuno cyflwyno holiadur ac angen cymorth, gallwch gysylltu â Carys Williams yn swyddfa Caernarfon 01286 672626 neu e-bost

carys@mantellgwynedd.com

Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles

GWASANAETH ADFOCATIAETH IECHYD MEDDWL

Mae Adfocatiaeth Iechyd Meddwl yn wasanaeth nad yw'n barnu, mae'n gyfrinachol, yn annibynnol ac am ddim ar gyfer pobl sy'n cael trafferth gyda materion iechyd meddwl neu sy'n gwella yn dilyn salwch sy'n gysylltiedig â'u hiechyd meddwl.

Bydd apwyntiadau ar gael i gleientiaid sy'n byw yng Nghaernarfon a'r ardaloedd cyfagos ar foreau Mercher rhwng 10am a 2pm yn Adeilad yr Institiwt, Neuadd y Pafiliwn, Caernarfon LL55 1AT. Bydd yr apwyntiadau gyda chleientiaid unigol yn parhau am awr ac mae'n wasanaeth dwyieithog.

Nodwch nad gwasanaeth galw heibio yw hwn ac mae'n rhaid gwneud apwyntiad ymlaen llaw drwy ffonio Elaine Hughes ar: 01248 353812.

Ffliw Pandemig a'r trydydd sector

Mae Adran Iechyd y Llywodraeth wedi paratoi arweiniad ar gyfer mudiadau'r trydydd sector sy'n rhoi gwybodaeth gefndirol ac yn amlinellu prif feysydd sydd angen ystyriaeth ar gyfer cefnogir mudiadau i gynllunio, paratoi ac ymateb i fflw pandemig. Am fwy o wybodaeth ewch ar:

<http://new.wales.gov.uk/topics/health/?lang=cy>

Cynllun Cydraddoldeb Sengl ar gyfer Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr

Mae'r grŵp Cydraddoldeb Gogledd Cymru yn gweithio ar gynllun Cydraddoldeb Sengl a Hawliau Dynol i'r corff iechyd newydd uchod fydd yn weithredol o Hydref y 1af 2009.

Os ydych chi eisiau mwy o wybodaeth neu am gael mewnbwn i'r cynllun a wnewch chi gysylltu â equality.feedback@nww-tr.wales.nhs.uk neu ffonio Clair Tipton ar 01248 682666.

Oes gennych chi syniad am fenter?

Gall prosiect Llwyddo yng Ngwynedd Menter eich helpu! Gweithdai sbarduno syniadau am fenter. Cyngor ac arweiniad i sefydlu'r fenter. Bwrsariaeth o hyd at £1,000.00 tuag at costau sefydlu'r fenter

Os ydych chi...

Yn byw yng Ngwynedd ac...

Yn aelod o deulu fferm neu

Rhwng 20-30oed neu

'Dan 10 oed neu

Yn aelod o Grŵp Cymunedol neu'n

Tan-gyflodedig

Cysylltwch â ni am fwy o wybodaeth!

mentro@menterabusnes.co.uk

(01248) 672633

CWRS NOCN LEFEL 3 2009/10— GWEITHWYR IEUENCTID.

Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yng Ngwynedd wedi clustnodi 5 lle i aelodau o fudiadau Trydydd Sector Gwynedd i ddilyn y cwrs uchod. Dyma'r dyddiadau ar gyfer y cwrs cyflawn: Sadwrn - Hydref 17, 2009, Sadwrn a Sul - Tachwedd 14 a 15, 2009 Sadwrn a Sul - Ionawr 16 a 17, 2010. Sadwrn a Sul - Mawrth 6 a 7, 2010, Mae ychydig o newidiadau i'r cwrs eleni ond mae'r gofyniaon fwy neu lai yr un fath a chwrs 2008/9. Bydd manylion pellach ar gael i unrhyw un sy'n datgan diddordeb. Os hoffech fynychu, a fydddech cystal â rhoi gwybod i mi cyn gynted â phosib os gwelwch yn dda? Cysylltwch ag Ann Vaughan Jones ar 01286 672626 neu annvaughan@mantellgwynedd.com

GOFAL GALAR CRUISE GOGLEDD CYMRU

Mae Gofal Galar Cruse Gogledd Cymru yn cynnal eu Cynhadledd Galar gyntaf un. Fe gynhelir hyn yng Nghanolfan Gynhadledd Interchange, Hen Golwyn, Conwy, 30 Medi 2009. Fe drafodir y materion canlynol:

1. Beth a wyddom sy'n gweithio â phlant mewn galar -David Trickey, Seicolegydd clinigol ymgynghorol.
2. Cariad, colled a gwreiddiau galar cymhleth - Colin Murray Parkes, Seiciatrydd ymgynghorol.
3. Ymchwil tair blynedd ar yr effaith o golli rhiant yn ystod plentyndod a sut yr effeithia hynny ar fywyd oedolyn - Jackie Ellis, myfyrwraig PhD ym Mhrifysgol Lerpwl, lle y mae'n rhan o'r Grŵp Astudio Academaidd Gofal Lliniarol a Chefnogol (APSCSG).

Bydd y gynhadledd hon o fudd i unrhyw un sy'n gweithio ag oedolion neu blant mewn galar. Am ffurflen archebu neu am fanylion pellach anfonwch e-bost at: crusenorthwales@btconnect.com neu ffoniwch 08445 617 856

Rhaglen 'Cyrсияu i Gymunedau' (CCC)

CYRSIAU ERAILL AR DARWS GOGLEDD CYMRU

Hyfforddiant fforddiadwy ar gyfer grwpiau cymunedol a gwirfoddol a ddarperir drwy bartneriaeth rhwng Cynghorau Gwirfoddol Sirol (CGS), canolfannau gwirfoddolwyr a CGGC (WCVA)

Dyddiad	Lleoliad	Cyswllt CGS	Hyd
Grantiau – addas ar gyfer arian			
27 Gorff. 09	Rhuthun	DVSC	1 diwrnod
Cynllunio busnes a chynllunio strategol			
7 Medi 09	Rhyl	DVSC	1 diwrnod
Ennill Arian			
28 Medi 09	Bae Colwyn	CVSC	1 diwrnod
Creu deunyddiau cyhoedduswydd a marchnata			
5 Hydref 09	Rhyl	DVSC	1 diwrnod
Cael y gorau gan eich gwirfoddolwyr			
12 Hydref 09	Rhyl	DVSC	1 diwrnod

I wneud ymholiadau cyffredinol ynghylch rhaglen Cyrсияu ar gyfer Cymunedau Cymru, cysylltwch â
Lein Gymorth CGGC (WCVA) ar 0800 2888329
neu ebostwch help@wcva.org.uk

Hyfforddiant / Digwyddiadau Mantell Gwynedd Medi - Rhagfyr 2009

Grantiau - Addas am Nawdd - Paratoi Ceisiadau a Dogfennau Cefnogol

9 Medi 2009

10.00yb - 4.00yp

Institiwt Corris

Cost : £10 Aelodau Mantell Gwynedd • £20 Di-aelod sector gwirfoddol • £40 Sector Preifat a Statudol

Cymorth Cyntaf Mewn Argyfwng

24 Medi 2009

10.00yp - 4.00yp

Medi-Tec, Intec, Parc Menai, Bangor

Cost : £50 Aelodau Mantell Gwynedd . £60 Di-aelod sector gwirfoddol. £70 Sector Breifat a Statudol

Cwrs Amddiffyn Plant Sylfaenol

Nod: i godi ymwybyddiaeth a datblygu gwybodaeth, a dealltwriaeth sylfaenol o faterion diogelu plant a phobl ifanc gan eich galluogi i weithredu ar bryderon ynglŷn â'u lles neu ddiogelwch.

10 Tachwedd 2009

10.00yb - 4.00yp

Lleoliad - Eglwys Santes Fair, Tremadog

Cost : £10 Aelodau Mantell Gwynedd • £20 Di-aelod sector gwirfoddol • £50 Sector Preifat a Statudol

Rhodd Gymorth (WCVA yn trefnu)

Ydych chi'n gwneud y gorau o'ch rhoddion? Gallwch chi gael arian gan y dreth incwm! Dewch i ddeall sut

15 Medi 2009

10.00yb – 1.00yp

Technium Cast, Bangor

Hefyd gobeithir cael dyddiadau ar gyfer Asesu Risg a Thendro yn fuan. Os hoffech drafod anghenion eich mudiad o ran hyfforddiant neu i gael rhagor o wybodaeth am yr hyfforddiant mae Mantell Gwynedd yn ei gynnig cysylltwch â: Mantell Gwynedd, Yr Hen Orsaf Heddlu, Y Lawnt, Dolgellau, Gwynedd LL40 1SB. Ffôn: 01341 422575 neu dolgellau@mantellgwynedd.com

Os hoffech drafod anghenion eich mudiad o ran hyfforddiant neu i gael rhagor o wybodaeth am yr hyfforddiant mae Mantell Gwynedd yn ei gynnig cysylltwch â: Mantell Gwynedd, Yr Hen Orsaf Heddlu, Y Lawnt, Dolgellau, Gwynedd LL40 1SB. **Ffôn: 01341 422575 neu dolgellau@mantellgwynedd.com**